LLESIANT POBL IFANC

SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

MEDI 2019

CYNNWYS

Ynglŷn a'r adroddiad hwn	3
Darlun o sgiliau a chyflogadwyedd	5
Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni?	7
Pwy arall sy'n chwarae rhan?	8
Faint sy'n cael ei wario?	9
Cyfleoedd i wella	10

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
Mae croeso i chi ein ffonio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yr oedd tîm astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Rachel Harries, a Verity Winn o dan arweinyddiaeth Matthew Mortlock.

YNGLŶN A'R ADRODDIAD HWN

Ynglŷn â'n gwaith ar lesiant pobl ifanc

Cydweithio

Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i archwilio thema gyffredin, sef 'leuenctid'. Cyhoeddodd yr arolygiaeth addysg, Estyn, ei hadroddiad ar **wasanaethau cymorth ieuenctid** ym mis Gorffennaf 2018. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei **hadolygiad o wasanaethau gofal iechyd i bobl ifanc** ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru **ei hadroddiad ar blant a phobl ifanc** sydd wedi bod mewn gofal ym mis Mehefin 2019.

Ein gwaith ni

Fe edrychom ni ar waith Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant pobl ifanc yng Nghymru. Mae llesiant yn gysyniad eang, felly rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar bum pwnc: digartrefedd ieuenctid; oedolion ifanc sy'n ofalwyr; rhieni ifanc; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd. Rydym yn cyhoeddi saith cynnyrch yn seiliedig ar ein gwaith, gan gynnwys yr adroddiad hwn. Mae'r diagram isod yn darparu dolen i bob cynnyrch.



Ynglŷn â'r adroddiad hwn am sgiliau a chyflogaeth

Fe edrychom ni ar sgiliau a chyflogaeth am bod gwella sgiliau yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Gyda'r sgiliau iawn, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o gael cyflogaeth ddiogel a boddhaus.

Nid yw'r adroddiad hwn yn archwiliad cynhwysfawr o wasanaethau sgiliau a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc. Ein ffocws yw sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella sgiliau pobl ifanc a'u siawns o ddod o hyd i waith. Fe ganolbwyntiom ni ar bobl ifanc 16 i 24 oed. Rydym yn rhoi ein harsylwadau yn seiliedig ar gyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, tystiolaeth o waith ymchwil ac ystadegau. Mae'r diagram yn darparu trosolwg o'r adroddiad hwn a gallwch ei ddefnyddio i symud i'r gwahanol adrannau sy'n egluro'r hyn a ganfuom.

Darlun o sgiliau a chyflogadwyedd

Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn gostwng. Mae rhai pobl ifanc yn besimistaidd ynglŷn â'u cyfleoedd.

Faint sy'n cael ei wario

Nid yw'n gwbl glir faint sy'n cael ei wario ar sgiliau a chyflogaeth ar gyfer pob oed na phobl ifanc yn benodol.

Pwy arall sy'n chwarae rhan

Mae gan lawer o sefydliadau rôl o ran cynorthwyo pobl ifanc i wella'u sgiliau a'u siawns o gael cyflogaeth.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni

Mae gan lawer o sefydliadau rôl o ran cynorthwyo pobl ifanc i wella'u sgiliau a'u siawns o gael cyflogaeth.

Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy clir o ran ei dull ar gyfer y boblogaeth ehangach sydd ddim yn rhaid nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

DARLUN O SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD

Yn 2017, roedd ychydig dros 350,000 o bobl ifanc 16 i 24 oed.

- Roedd 40% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg lawn-amser. Roedd bron i draean o'r bobl hyn hefyd yn gweithio'n llawn-amser neu'n rhan-amser.
- Roedd 3% mewn addysg ran-amser. Roedd tua dwy ran o dair o'r bobl hyn hefyd yn gweithio'n llawn-amser neu'n rhan-amser.
- Roedd 7% yn hyfforddi. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn gweithio'n llawn-amser neu'n rhan-amser.
- Nid oedd 50% yn gwneud unrhyw fath o weithgaredd dysgu. Roedd bron i dri chwarter hefyd yn gweithio'n llawn-amser neu'n rhan-amser.

Roedd 12% o'r bobl ifanc 16 i 24 oed yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (41,800 o bobl).

Cliciwch yma i weld fersiwn ryngweithiol o'r data[1]. Mae **ein hofferyn data** yn rhoi rhagor o wybodaeth am bobl ifanc mewn perthynas â sgiliau a chyflogadwyedd.

Dengys y siart isod fod y ganran o'r bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng ers 2001. Fe gynyddodd y ganran o'r bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 2008-2010 ac yna gostyngodd yn gyflym o 2012 ymlaen.

Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant



Ffynhonnell: **Bwletin ystadegol Llywodraeth Cymru** Ionawr 2019.

TROEDNODION

1 Efallai y bydd data yn yr adroddiad hwn ychydig yn wahanol i'n hofferyn data ni sy'n cynnwys diweddariadau data byw.

Disgrifiodd **adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014** ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ymchwil a oedd yn dweud bod pobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) yn perthyn i dri grŵp:

- mae tua 40% o'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn NEETs 'craidd'. Gall y bobl ifanc hyn fod wedi bod allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant am amser hir a gall fod arnynt angen help i ail-ymgysylltu.
- mae 40% arall yn NEETs 'cylchol'. Maent yn agored i ddysgu ac yn debygol o ail-ymgysylltu yn y tymor byr.
- mae'r 20% sy'n weddill yn NEETs 'arnofiol'. Maent yn ansicr ynghylch eu dyfodol ond nid oes angen help arnynt o anghenraid i benderfynu neu gael mynediad at gyfleoedd.

Mae cymhwyso ymchwil i ffigyrau 2017 yn awgrymu, o'r 8,600 o bobl ifanc 16 i 18 oed a oedd yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mai dim ond 3,440 o bobl fyddai wedi bod yn NEETs craidd yr oedd angen cymorth arnynt.

Yn 2019, roedd **Mynegai Ieuenctid Ymddiriedolaeth y Tywysog**[2] yn dangos bod hapusrwydd a hyder pobl ifanc ar draws pob maes yn eu bywydau ar eu hisaf ers i'r mynegai ddechrau yn 2009. Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng Nghymru'n cytuno[3] bod eu cenhedlaeth hwy'n llai sicr ynghylch cyflogaeth yn y dyfodol na'u rhieni. Fodd bynnag, roedd dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn byw yng Nghymru'n hyderus ynglŷn â'u cyflogaeth yn y dyfodol ac roedd bron i dri chwarter yn hyderus[4] ynglŷn â'u hyfforddiant a'u cymwysterau.

TROEDNODION

2 Yn seiliedig ar arolwg cenedlaethol o 2,162 o bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n byw yn y DU. Roedd dau gant a phump o ymatebwyr yn byw yng Nghymru.

3 Mae'n cynnwys ymatebwyr a oedd yn cytuno'n 'gryf' neu'n cytuno 'i ryw raddau'.

4 Mae'n cynnwys ymatebwyr a oedd yn 'weddol' hyderus, yn hyderus 'at ei gilydd' neu'n hyderus 'iawn'.

BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU YN CEISIO'I GYFLAWNI?



Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau i ysgolion arfogi pobl ifanc â sgiliau ar gyfer bywyd. Mae ei **strategaeth genedlaethol** yn dweud y bydd yn darparu cwricwlwm ysgol sy'n diwallu anghenion unigolion a'r economi ehangach. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymwysterau i bobl y mae ar gyflogwyr eu heisiau. Un o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru yw cynorthwyo pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial.

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae ei **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** yn dweud sut y dylai sefydliadau adnabod a helpu'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.



Mae llawer o strategaethau addysg yn nodi'r cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc. Er enghraifft, mae'r **Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith*** yn rhoi canllawiau i ysgolion ynghylch sut y dylent gyflwyno'r rhan hon o'r cwricwlwm presennol. **Fe adolygodd Estyn y broses o roi'r fframwaith** ar waith ym mis Medi 2017. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r fframwaith a diweddaru ei chanllawiau.





Caiff cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd a chyflogaeth eu nodi yn ei **Chynllun Gweithredu ar yr Economi** a'i **Chynllun Cyflogadwyedd**. Mae'r ddau gynllun yn cynnwys cymorth cyflogadwyedd sydd wedi'i fwriadu i fod yn haws i unigolion a'r rhai sy'n eu cynghori ddod o hyd i'w ffordd drwyddo a chael mynediad ato. Mae cymorth yn cynnwys Cymru'n Gweithio, gwasanaeth ymgynghorol newydd i bobl 16 oed a throsodd, sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt mynediad annibynnol, cenedlaethol ar gyfer cyngor ynghylch gyrfaoedd. Mae ymgynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig yn gweithio gydag unigolion i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cyfeirio at y lle cywir ar yr adeg gywir gan ddibynnu ar eu hanghenion. O fis Ebrill 2020 ymlaen bydd pobl yn gallu cael mynediad at raglen cyflogadwyedd newydd, Cymorth Swyddi Cymru, a fydd yn cefnogi unigolion o bob oed ac yn cynnwys cymorth penodol ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.

Mae **Canllawiau Ymestyn Hawliau 2002** Llywodraeth Cymru yn nodi pa gymorth y mae gan yr holl bobl ifanc hawl iddo dan **Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.** Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru **adolygiad** o'i chanllawiau yn 2018 ond nid yw wedi penderfynu a ddylid eu diweddaru.

Mae llawer o brosiectau lleol yn helpu'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu bobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae prosiectau'n cynnwys Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Ysbrydoli i Weithio a Trac 11-14, ymhlith eraill. Yn aml cefnogir y rhain gan gyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

PWY ARALL SY'N CHWARAE RHAN?

Pwy arall sy'n rhan o gynorthwyo pobl ifanc i wella'u sgiliau a'u cyflogadwyedd?

Mae cynghorau'n cyflogi Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu i wneud yn siŵr bod sefydliadau'n cydgysylltu eu gwaith i adnabod a helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Maent hefyd yn gyfrifol am ddyrannu gweithwyr arweiniol sy'n cefnogi pobl ifanc yn uniongyrchol. Rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr hefyd bod pob person ifanc yn cael mynediad at le dysgu addas ar ôl 16, os oes arnynt ei eisiau.

Mae Gyrfa Cymru a gwasanaethau ieuenctid lleol yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sy'n wynebu risg o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae Gyrfa Cymru yn cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch opsiynau gyrfaol ac yn darparu gwybodaeth sy'n dynodi a yw pobl ifanc mewn addysg neu gyflogaeth ar ôl 16, gan gynnwys trwy'r gwasanaeth cynghori newydd, Cymru'n Gweithio, a lansiwyd ar 1 Mai 2019.

Mae ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant yn y sector preifat neu'r trydydd sector yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chymwysterau. Maent hefyd yn rhoi gwybod i sefydliadau eraill os oes ar bobl ifanc angen rhagor o gymorth neu os ydynt wedi rhoi'r gorau iddi.

Mae tair **Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol** yng Nghymru. Mae partneriaethau'n dadansoddi'r heriau economaidd a'r ardaloedd twf tebygol yn eu rhanbarth, i adnabod y sgiliau y mae ar y gweithlu eu hangen. Maent yn cynhyrchu cynllun blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n dylanwadu ar y cyllid ym mhob rhanbarth.

FAINT SY'N CAEL EI WARIO?

Mae'r siart isod yn dangos gwariant Llywodraeth Cymru ar sgiliau ar gyfer pobl o bob oed heb gynnwys arian ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae'r ffigyrau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys tua £42 miliwn ar gyfer nifer o raglenni cyflogadwyedd a fydd yn dod yn un rhaglen cyflogadwyedd newydd, Cymorth Swyddi Cymru, yn 2020-21. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod yn union faint sy'n cael ei wario ar bobl ifanc 16 i 24 oed am bod peth o'i gwariant yn wariant i helpu pobl o bob oed.

Gwariant Llywodraeth Cymru ar sgiliau



Ffynhonnell: Ffigyrau Llywodraeth Cymru.

CYFLEOEDD I WELLA

Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru

Deall yr hyn y mae ar bobl ifanc ei angen

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn disgwyl i gynghorau, Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill fod â gwybodaeth fanwl am y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r Fframwaith yn defnyddio model ymgysylltu pum haen Gyrfa Cymru ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed. Dyrennir pobl ifanc i haen yn seiliedig ar eu risg o ymddieithrio a'u hangen am gymorth. Mae hyn yn penderfynu a roddir gweithiwr arweiniol iddynt ac, os felly, o ba sefydliad y bydd y gweithiwr arweiniol yn dod.

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach beth gwybodaeth am yr hyn y mae ar yr economi a chyflogwyr penodol ei angen. Ond mae ganddynt lai o wybodaeth am yr hyn y mae ar bobl ifanc ei angen, eu profiad o wasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi eu datblygiad, neu fyd gwaith. Nid oes ganddynt ddigon o wybodaeth sy'n dynodi ym mha sectorau y mae pobl ifanc yn gweithio, faint y maent yn ei ennill na pha un a yw eu sgiliau a'u cymwysterau'n cyfateb i'r hyn y mae ar gyflogwyr ei eisiau.

Deall pa wasanaethau sy'n bodoli a'r bylchau

Mae nifer o brosiectau ledled Cymru sy'n ceisio targedu'r un grŵp cymharol fach o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sy'n wynebu risg o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod digon am y prosiectau hyn i sicrhau nad ydynt yn ailadrodd yr un gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu y bydd Cymorth Swyddi Cymru yn symleiddio'r darlun cyffredinol o gymorth cyflogadwyedd ac yn gwneud prosiectau sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn llai tebygol.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru wybodaeth am fylchau mewn gwasanaethau cymorth gyrfaoedd mewn ysgolion ac effaith y bylchau hyn. Er enghraifft, mae toriadau i gyllideb Gyrfa Cymru yn golygu nad yw'n fetio lleoliadau profiad gwaith posibl ar gyfer ysgolion mwyach. O ganlyniad, nid yw rhai ysgolion yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith i ddisgyblion. Fe asesodd Llywodraeth Cymru effaith lleihau cyllideb Gyrfa Cymru, ond gallai fod wedi gwneud mwy i ddeall sut y byddai'n effeithio ar ysgolion a dysgwyr unigol.

Mae rhai sefydliadau'n ceisio llenwi bylchau mewn gwasanaethau eu hunain. Er enghraifft, mae gweithwyr ieuenctid yn helpu i ysgrifennu CVs pan nad yw'r Ganolfan Waith yn gallu helpu.

Deall gwariant



Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod faint y mae'n ei wario ar sgiliau ar y cyfan, er nad yw'n gwahanu'r arian y mae'n ei wario'n benodol ar bobl ifanc 16 i 24 oed.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwybod faint o arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei wario ar brosiectau sy'n ymwneud â chyflogaeth a chyrhaeddiad ieuenctid. Mae cyfleoedd i Lywodraeth Cymru fynd ati ymhellach i wella'i dealltwriaeth am wariant ar sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc mewn meysydd penodol trwy ddadansoddi'r wybodaeth sydd ganddi'n barod am wariant ar brosiectau'r UE a chynlluniau megis prentisiaethau a hyfforddeiaethau.

Llunio polisïau mewn modd cydgysylltiedig

Mae rhannau eraill o Lywodraeth Cymru yn dysgu[5] o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae'r Fframwaith yn rhoi anogaeth ar gyfer cydweithio gan ganiatáu hyblygrwydd i benderfynu beth sy'n gweithio'n lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydgysylltu ei meysydd polisi ei hun i gefnogi datblygiad pobl ifanc. Ond, mae'n dal i ganolbwyntio'n bennaf ar atal lleiafrif bach rhag dod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant pan ydynt rhwng 16 a 18 oed. Mae rhai sefydliadau'n pryderu bod ffocws Llywodraeth Cymru ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi lleihau'r help sydd ar gael i bobl ifanc eraill, ac i'r rhai sy'n peidio â bod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant am eu bod wedi dechrau hyfforddi neu wneud gwaith am dâl isel. Nid oes ganddi ddull cydgysylltiedig o helpu'r holl bobl ifanc i gyflawni eu potensial eto.

Mae rhai pobl ifanc yn cael eu hanfon rhwng gwahanol asiantaethau ac yn gorfod cydgysylltu gwasanaethau drostynt eu hunain.

TROEDNODION

5 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu addasu'r Fframwaith a'i ddefnyddio ar gyfer gwaith ar ddigartrefedd ieuenctid a chymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc.

Penderfynu pwy sy'n gwneud beth

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn nodi'n glir beth yw cyfrifoldebau sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sy'n wynebu risg o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ond mae Llywodraeth Cymru yn llai clir pwy sy'n gyfrifol am helpu pobl ifanc eraill.

Mae dod o hyd i gymorth gyda swyddi a sgiliau'n gymhleth. Ceir gwahanol lwybrau a meini prawf atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau lleol sy'n cynnig cymorth gwahanol ond tebyg. Nid yw llawer o bobl ifanc yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Roedd gweithwyr proffesiynol yn ei chael yn anodd aros gyfuwch â'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol. Mae gan rai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant weithwyr arweiniol i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch system gymhleth. Ond nid yw'r un cymorth ar gael i bobl ifanc eraill.

Dysgu o'r ddarpariaeth a'i gwella ar lawr gwlad

Mae Llywodraeth Cymru yn amlwg yn dysgu o'i dull cyffredinol lle mae cyflogadwyedd a sgiliau yn y cwestiwn wrth iddi ddatblygu'r rhaglen Cymorth Swyddi Cymru ac addasu ei Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Fodd bynnag, mae ei gwaith monitro'n canolbwyntio ar un ffigwr cul. Mae **dangosyddion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru** yn cynnwys y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ond nid ydynt yn mesur cynnydd ar gyfer pobl ifanc eraill.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod a yw prosiectau ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial yn y pen draw, na pha un a ydynt yn diweddu mewn gwaith â thâl isel neu gyrsiau hyfforddi nad oes diddordeb ganddynt ynddynt. Dywedodd sefydliadau wrthym fod pobl ifanc yn ei chael yn anodd symud o un cwrs i'r llall a'u bod yn gallu cael eu dal ar gwrs nad ydynt yn dymuno'i wneud mwyach. Dywedasant wrthym mai'r rheswm dros hyn yw bod rhai amodau cyllid yn peri i sefydliadau ddal eu gafael ar bobl ifanc er mwyn cyrraedd eu targedau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod digon am y cwestiwn a yw pobl ifanc yn cael y cymorth y mae'i angen arnynt.

Darparu arweinyddiaeth



Mae dull Llywodraeth Cymru lle mae pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y cwestiwn yn eglur ac mae wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan o ran gostwng nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Canfu'r adroddiad ar y Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant a gyhoeddwyd gennym yn 2014 fod dull Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac ymgysylltu â chynghorau a phartneriaid eraill, a phobl ifanc eu hunain.

Mae sefydliadau'n llai clir ynglŷn â'r hyn y mae ar Lywodraeth Cymru eisiau ei gyflawni ar gyfer poblogaeth ehangach y bobl ifanc mewn perthynas â sgiliau a chyflogadwyedd. Maent hefyd yn aneglur sut y mae ar Lywodraeth Cymru eisiau i wasanaethau ehangach megis iechyd neu gludiant gydweithio i helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial. Mae rhai dogfennau strategol[6] sy'n nodi'r cymorth y mae gan bobl ifanc hawl iddo wedi mynd yn hen ac nid ydynt yn adlewyrchu trefniadau darparu cyfredol.

TROEDNODION

6 Gan gynnwys y **Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith** a **Chanllawiau Ymestyn Hawliau 2002**.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.